



14 Ebrill 2020

**YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AR Y CYD AROLYGIAETH CARCHARDAI EI MAWRHYDI/AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI MAWRHYDI:
*AROLYGIAD THEMATIG AR Y CYD O REOLI INTEGREDIG TROSEDDWYR***

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at nifer o faterion pwysig rwyf wrthi'n gweithio arnynt ar cyd ag eraill yn Ne Cymru ac yn eu hystyried yn flaenoriaethau parhaus yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddau. Mae gen i ddiddordeb brwd mewn Rheoli Integredig Troseddwy'r yn ardal yr heddlu, gan gynnwys cyd-gadeirio Bwrdd Rhanbarthol Rheoli Integredig Troseddwy'r a Chyfiawnder Troseddol De Cymru, a bod yn gynrychiolydd rheolaidd ar Fwrdd Rheoli Integredig Troseddwy'r Cymru.

Yn 2018, ar y cyd â'r Prif Gwnstabl, comisiynais gyd-adolygiad mewnol o'n prosesau Rheoli Troseddwy'r ar y Cyd ein hunain. Lluniwyd adroddiad terfynol yr adolygiad ym mis Ebrill 2019. Mae'r canfyddiadau yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolygiad hwn ar y cyfan, a diolch byth mae gwelliannau lleol wedi cael eu gwneud eisoes.

Gwnaed nifer o argymhellion yn ein hadolygiad ein hunain. Er enghraifft, tynnodd yr adolygiad sylw at yr angen i lunio proffil problemau troseddol er mwyn sicrhau bod carfannau yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol y bartneriaeth leol. Nodwyd anghenion hyfforddi ar gyfer staff Rheoli Integredig Troseddwy'r hefyd, a nodwyd bod angen sicrhau bod ymyriadau rheoli troseddwy'r yn rhoi data digonol a chyson ar droseddwy'r ym mhob rhan o'r bartneriaeth er mwyn monitro canlyniadau yn effeithiol.

Rydym wedi cytuno i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhaglen Rheoli Troseddwy'r ar y Cyd er mwyn rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith a chaiff y Bwrdd ei oruchwylio a'i gyd-gadeirio gan fy Nirprwy Gomisiynydd a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol gyda'r arweinydd portffolio.

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales



Darperir sylwadau'r Prif Gwnstabl ar yr adroddiad arolygu hwn isod ac maent yn rhoi trosolwg defnyddiol o waith presennol yn y maes hwn:

'Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod bod tirwedd rheoli troseddwr yn gymhleth ac yn aml-ddimensiwn ond mae hefyd yn faes busnes hollbwysig. Caiff ei gydnabod a'i gefnogi fel blaenoriaeth yng Nghynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl a Chynllun Heddlu a Throseddau'r Comisiynydd. Rydym yn cydnabod argymhellion adolygiad Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi. Gwnaed nifer o argymhellion tactegol yn ein hadolygiad mewnol er mwyn gwella cydlyniant prosesau Rheoli Integredig Troseddwr a chyfathrebu rhwng yr heddlu, asiantaethau prawf ac asiantaethau partner. Mae camau sylweddol o'r broses yn cael eu diwygio er mwyn bod pob asiantaeth yn deall cyfrifoldebau a disgwyliadau ei gilydd. Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad oedd bod trefniadau partneriaeth strategol ar waith ar lefel genedlaethol ond nad oeddent yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan drefniadau llywodraethu gweithredol tactegol. Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn nawr drwy strwythur llywodraethu rheoli troseddwr cyffredinol.

Rydym yn cydnabod ac yn nodi pwysigrwydd cynnal ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd o ran rheoli troseddwr ac mae llawer o'n hargymhellion mewnol yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Rydym wedi blaenoriaethu argymhellion megis ymyrryd yn gynnar mewn achosion posibl o gamfanteisio'n rhywiol ac yn droseddol ar blant a rhaglenni ymyrryd mewn perthynas â cham-drin domestig megis 'Drive', a gaiff ei rhoi ar waith yn mhob rhan o'r heddlu yn fuan.

Yn ogystal â hyn, yn ddiweddar rydym wedi ymgymryd â phrosiect i gyflwyno Rheolwyr Troseddwr Cam-drin Domestig arbenigol a fydd yn gyfrifol am reoli'r sawl sydd wedi cyflawni troseddau cam-drin domestig. Mae hyn yn dystiolaeth bellach o'n hymdrech i ddeall cam-drin domestig a defnyddio swyddogion medrus a phrofiadol sydd wedi cael hyfforddiant da yn y meysydd lle mae'r risg fwyaf a goblygiadau diogelu. Rydym hefyd yn ymrwymo adnoddau i ddatblygu ein hadnodd nodi risg ein hunain ar gyfer y sawl sydd wedi cyflawni troseddau cam-drin domestig er mwyn helpu a llywio'r broses rheoli troseddwr ymhellach.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld ymyriadau peilot megis WISDOM a DRIVE yn cael eu cyflwyno. Mae'r ddwy raglen yn canolbwyntio ar y troseddwr sy'n peri'r risg fwyaf a'r awgrymiadau cynnar yw y byddant yn cyflawni

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales



canlyniadau cadarnhaol pan fyddant yn cael eu cydbwysu yn erbyn yr angen i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed'.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn croesawu adolygiad yr Arolygiaeth a byddwn yn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn ein hadolygiad mewnol. Byddaf yn parhau i fonitro'n agos a chraffu ar berfformiad a chydberthnasau gwaith ag asiantaethau partner mewn perthynas â Rheoli Integredig Troseddwy.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English